*(Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd)*

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Dyfed-Powys

## Cylch Gorchwyl

## Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys

**Rheoli Fersiynau**

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rheswm Dros Newid |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Medi 2016 | Karys Thomas | Fersiwn gyntaf |
| 1.1 | Rhagfyr 2016 | Claire Bryant | Mân ddiwygiadau |
| 1.2 | Chwefror 2017 | Claire Bryant | Cynnwys olrhain camau gweithredu |
| 2.0 | Ebrill 2017 | Claire Bryant | Dileu'r angen i olygu Proses adrodd wedi'i diweddaru |
| 3.0 | Mawrth 2019 | Caryl Bond | Adolygiad o aelodaeth y cyfarfodydd. |
| 3.1 | Hydref 2019 | Claire Bryant | Cynnwys adolygiad thematig blynyddol pobl Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol / unigolion benywaidd. |
| 3.2 | Hydref 2020 | Caryl Bond | Adolygiad blynyddol – Ychwanegu'r posibilrwydd o rith-gyfarfodydd drwy lwyfan arlein diogel. |
| 4.0 | Hydref 2022 | Caryl Bond | Ychwanegwyd gwybodaeth ychwanegol ar nifer yr achosion a adolygwyd ac ychwanegwyd cynrychiolydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF i aelodaeth y Panel. |
| 5.0 | Mai 2024 | Ellen Jones | Adolygu Cylch Gorchwyl |
| 5.1 | Gorffennaf 2024 | Tom Walters | Adolygu Atodiad E |
| 5.2 | Awst 2024 | Ellen Jones | Ail-frandio'n Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys |
| 6.0 | Mawrth 2027 | Ellen Jones | Adolygiad Blynyddol. Yr adolygiad nesaf i ddigwydd Mawrth 2027. |

## 1.1 Cyflwyniad

Nod Paneli Craffu yw cyflwyno gwell tryloywder a chysondeb o ran y defnydd o Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys, gan gynyddu dealltwriaeth, hyder a ffydd y cyhoedd. Dylent fod o lefel ddigon uchel i roi

cwmpas ar gyfer ymagweddau lleol a chaniatáu i swyddogion unigol arfer disgresiwn proffesiynol. I gychwyn, ffocws panel Dyfed-Powys fydd Rhybuddio a Datrysiadau Adferol Ieuenctid gyda golwg ar estyn hyn bob yn dipyn i gwmpasu pob math o ddatrysiadau y tu allan i'r llys.

### 1.2 Diben

Diben y panel yw asesu, rheoli ansawdd, a chraffu'n annibynnol ar y defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys gan Heddlu Dyfed-Powys. Gall y panel gynnig argymhellion, rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, cyfathrebu canfyddiadau, hyrwyddo arfer da a nodi datblygiadau polisi posibl neu anghenion hyfforddi i'w hystyried gan yr heddlu neu asiantaethau eraill cysylltiedig. Ni all y panel newid canlyniad gwreiddiol yr achos.

### 1.3 Aelodaeth

1) Prif Weithredwr SCHTh (Cadeirydd Panel)
2) Cynrychiolwyr Tîm Troseddau Ieuenctid
3) Cynrychiolydd Gwasanaeth Erlyn y Goron
4) Prif Arolygydd, Dalfeydd
5) Cofrestrydd Troseddau a Digwyddiadau'r Heddlu
6) Cynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
7) Uwch arweinydd Adran Cyfiawnder Troseddol yr Heddlu
8) Cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
9) Cadeirydd Mainc Ynadon
10) Prif Arolygydd Partneriaethau neu Arolygwyr gydag awdurdod dirprwyedig
11) Cynrychiolydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF
12) Rheolwr Busnes a Systemau Cefnogi Cyfiawnder Troseddol yr Heddlu

Gan y bydd aelodau panel yn trafod achosion trosedd cyfrinachol sydd wedi cau, sydd ddim ar agor i'r cyhoedd, byddant yn cytuno i beidio â datgelu manylion personol am yr achosion i sefydliadau neu unigolion y tu allan i'r cyfarfod. Fodd bynnag, caiff aelodau rannu'r prif themâu a'r dysgu â'u cydweithwyr ac er mwyn hwyluso hyn, bydd crynodeb o ganfyddiadau'r panel ar gael. Amlinellir Cytundeb Cyfrinachedd yn **'Atodiad Ch'** a bydd yr aelodau'n cytuno i lynu wrtho.

Dylai aelodau panel wneud eu gorau glas i fynychu cyfarfodydd panel, fodd bynnag, os nad oes modd osgoi absenoldeb, caiff cynrychiolydd, sydd wedi derbyn gwybodaeth briodol, fynychu ar eu rhan. Rhaid i unrhyw gynrychiolwyr roi gwybod i SCHTh ddim hwyrach na dwy wythnos cyn y cyfarfod er mwyn caniatáu amser iddynt gael eu hychwanegu i sianel Microsoft Teams ddiogel er mwyn cael mynediad at yr achosion. Mae'n bosibl na fydd ceisiadau a wneir ar ôl cyfnod hwn o ddwy wythnos yn cael eu cwblhau.

Bydd y panel yn cwrdd yn chwarterol gyda chworwm o bump a ddylai gynnwys y cadeirydd, yr heddlu, GEG a chynrychiolydd o'r Tîm Troseddau Ieuenctid. Os nad yw'r cadeirydd ar gael, bydd SCHTh yn pennu cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw. Ar ôl trafod, bydd pob achos fel arfer yn syrthio i un o

bedwar categori – er y byddai barn gan yr aelodau panel ymlaen llaw, mae'n bosibl y bydd eu barn yn newid yn ystod trafodaethau.

1. Defnydd priodol ac yn gyson â pholisïau/canllawiau
2. Defnydd priodol gydag amheuon gan aelodau panel
3. Defnydd amhriodol neu'n anghyson â pholisïau/canllawiau
4. Y panel yn methu â dod i benderfyniad

### 1.4 Swyddi Gwag

Pan mae llefydd gwag yn codi o fewn y panel, yr asiantaeth sy'n creu'r lle gwag fydd yn gyfrifol am adnabod olynydd addas. Gellir adolygu aelodaeth y panel ar unrhyw adeg i sicrhau bod pob asiantaeth berthnasol yn cael ei chynrychioli er mwyn cynorthwyo â'r broses graffu.

### 1.5 Cadeirydd

Rôl y cadeirydd yw dewis sicrhau bod pob aelod panel yn cael amser a chyfle cyfartal i roi barn ac adborth ar lafar. Pan mae barn gymysg, bydd yr achos yn cael ei drafod gyda'r nod o gael y mwyafrif o'r aelodau i gytuno a dysgu ar gyfer yr aelodau. Pan na fydd hyn yn cael ei gyflawni, cofnodir yr achos fel 'categori 4' ac ni chynigir adborth.

Pan nodir adborth cadarnhaol neu ddatblygiadol ar gyfer swyddogion a staff, bydd cynrychiolydd Cyfiawnder Troseddol Heddlu Dyfed-Powys yn symud ymlaen â hyn drwy gyfarfod Strategol yr Heddlu ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys. Gall yr adborth fod yn adborth ar lafar neu'n adborth ysgrifenedig, neu'n gyfuniad o'r ddau gan ddibynnu ar beth sy'n briodol a chymesur o dan yr amgylchiadau.

### 1.6 Cyfarfodydd Panel

Bydd dyddiadau a lleoliad cyfarfod y panel yn cael eu cytuno a'u cylchredeg o flaen llaw gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol drwy Microsoft Teams. Rhagwelir y bydd cyfarfodydd panel yn cael eu cynnal yn chwarterol. Bydd rhwng deg ac ugain o achosion o ddatrysiadau y tu allan i'r llys yn cael eu hadolygu ym mhob cyfarfod (8 oedolyn a 8 ieuenctid ond gall y niferoedd hyn amrywio).

Bydd blaenraglen waith y panel yn cynnwys adolygiadau thematig blynyddol o ddatrysiadau y tu allan i'r llys a ddyfarnwyd i gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ac unigolion benywaidd.

Gwneir cais am restr o achosion sy'n dangos RhCU, troseddau ac amgylchiadau a gafodd eu trin o fewn y 3 mis diwethaf gan Heddlu Dyfed Powys. Bydd SCHTh yn dethol yr achosion i'w hystyried gan y panel yn annibynnol ac ar hap. Gall y dewis fod yn thematig, yn ôl ardal neu'r math o drosedd, fel y cytunir gan y panel, neu fe all fod yn seiliedig ar unrhyw drosedd na fyddai fel arfer yn cael ei chysylltu â datrysiadau y tu allan i'r llys. Os nad oes digon, gellir cynnal hap samplo er mwyn cynyddu niferoedd.

Bydd yr achosion a ddewiswyd yn cael eu hymchwilio a bydd gwybodaeth am yr achosion yn cael ei hanfon at aelodau panel i'w hasesu cyn y cyfarfod panel drwy'r sianel Microsoft Teams benodedig. Gellir cynnwys arolygon bodlonrwydd dioddefwyr fel rhan o'r wybodaeth achos, yn ogystal ag unrhyw safbwyntiau neu adborth gan y troseddwr sydd ar gael.

### 1.7 Swyddogaethau

Fel arfer, bydd gwybodaeth am achosion yn cael ei hanfon at aelodau panel bythefnos cyn y cyfarfod panel drwy'r sianel Microsoft Teams. Ar ôl derbyn y wybodaeth achos, bydd aelodau panel yn adolygu'r deunydd ac yn cwblhau'r templed gyda sylwadau a chategori cychwynnol (gweler 1–4 uchod). Gwahoddir aelodau panel i gyflwyno unrhyw ymholiadau ymlaen llaw i gynrychiolydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o leiaf wythnos cyn dyddiad y cyfarfod panel. Os oes cwestiynau'n cael eu codi, bydd y rhain yn cael eu hymchwilio a'u trin yn y cyfarfod panel.

Yna, mae'r panel craffu'n cyfarfod er mwyn trafod pob achos a, lle bo'n bosibl, dod i benderfyniad. Wrth benderfynu ar gategori'r achos, dylai'r panel ystyried y meini prawf canlynol –

1. Os ar gael, safbwyntiau ac adborth gan y dioddefydd a'r troseddwr
2. Cydymffurfiaeth â gweithdrefnau a pholisïau/canllawiau'r heddlu
3. Y rheswm dros y penderfyniad a'r canlyniad
4. Yr effaith bosibl ar y gymuned
5. Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd – nid yn ôl teitl na diffiniad
6. Dewisiadau amgen posibl a allai fod wedi bod ar gael

Nid oes gan y panel craffu unrhyw allu o ran apelio na chyfeirio. Gellir ailystyried y cylch gorchwyl a'i ddiwygio os oes angen wrth i'r panel esblygu. Gellir symud enghreifftiau o arfer da, tueddiadau a dysgu sefydliadol ymlaen drwy Strwythurau Perfformiad yr Heddlu, cyfarfod Gweithrediadau a'r Pwyllgor Dysgu'r Gwersi a'u cyfathrebu i staff pan fod angen. Cesglir adborth yn y cyfarfod, ac ysgrifennir adroddiad sy'n nodi camau gweithredu a chanfyddiadau allweddol. Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu'n ddau, canfyddiadau oedolion a chanfyddiadau ieuenctid. Yna cyflwynir yr adroddiadau i'r strwythurau llywodraethu priodol. Bydd yr adroddiad oedolion yn cael ei gyflwyno i gyfarfod strategol yr Heddlu ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, a bydd yr adroddiad ieuenctid yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ei ystyried. Bydd camau gweithredu o'r cyfarfod yn cael eu cofnodi ar system olrhain SCHTh. Dylid cwblhau camau gweithredu o fewn 6 wythnos o ddyddiad y cyfarfod a rhoi diweddariad i SCHTh. Bydd negeseuon atgoffa'n cael eu hanfon tua 6 wythnos cyn dyddiad y cyfarfod nesaf.

Dylai aelodau Panel fod yn gyfarwydd â chanllawiau ar ddatryysiadau y tu allan i'r llys sy'n berthnasol i'r maes maen nhw'n ystyried. Mae angen i aelodau Panel fod yn gyfarwydd â matrics penderfynu Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer troseddwyr ifainc a throseddwyr sy'n oedolion a'r Fframwaith Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys a geir yn **Atodiad D.**

Ceir siart llif sy'n crynhoi prosesau'r Panel Craffu yn **Atodiad B.** Dylai ynadon fod yn gyfarwydd â'r canllawiau a osodir gan y Clerc Ynadon. **(Dangosir rhai o'r canllawiau yn Atodiad C**).

**Atodiad A**

# PANEL CRAFFU

ADBORTH ACHOS

| | |
|---|---|
| Panel: | Datrysiad y Tu Allan i'r Llys |
| Thema ffocws: | |
| Dyddiad y cyfarfod: | |
| Cyfeirnod achos: | |
| Math o achos: e.e. cwyn / trosedd ac ati. | |

| | |
|---|---|
| **Cynnwys y ffeil achos** | *Dylai'r adran hon fod wedi'i chwblhau ar eich cyfer cyn y cyfarfod ac mae'n darparu rhestr o ddogfennau a geir yn y ffeil* |
| | |
| **Gwybodaeth am yr achos / amgylchiadau'r achos** | *Dylai'r adran hon fod wedi'i chwblhau ar eich cyfer cyn y cyfarfod ac mae'n cynnig trosolwg o'r achos sy'n cael ei ystyried* |
| | |
| **Agweddau cadarnhaol** | *Defnyddiwch yr adran hon i ddisgrifio agweddau cadarnhaol rydych chi'n teimlo y dylid tynnu sylw atynt* |
| | |
| **Agweddau negyddol** | *Defnyddiwch yr adran hon i ddisgrifio agweddau negyddol rydych chi'n teimlo y dylid tynnu sylw atynt* |
| | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **Categori** | *1. Defnydd priodol ac yn gyson â pholisïau*<br>*2. Defnydd priodol gydag amheuon*<br>*3. Defnydd amhriodol neu'n anghyson â pholisïau*<br>*4. Methwyd â dod i benderfyniad* | |
| *Esboniwch eich rheswm os gwelwch chi'n dda.* | | |
| **Ymholiadau a godwyd** | *Defnyddiwch yr adran hon i nodi unrhyw gwestiynau sydd gennych ar gyfer y panel ar ôl adolygu'r ffeil hon* | |
| | | |
| **Camau gweithredu** | *Defnyddiwch yr adran hon i nodi unrhyw gamau gweithredu rydych chi'n teimlo y dylai'r panel gymryd ar ôl adolygu'r ffeil hon* | |
| | | |

Aelod Panel (rhag ofn y bydd ymholiadau): .........................................................................................................

## Siart Broses y Panel Craffu

**Atodiad B**

4 wythnos cyn y Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys, mae'r trefnydd (SCHTh) yn gofyn am ddarpariaeth achosion yn ôl gwarediad a throsedd

18 achos yn cael eu dethol yn annibynnol gan SCHTh

Mae Heddlu Dyfed Powys yn holi systemau ac yn rhoi gwybodaeth achos briodol ar dempled. (Atodiad A)

Anfonir gwybodaeth achos yn electronig drwy sianel MS Teams at aelodau bythefnos cyn y cyfarfod.

Mae aelodau panel yn darllen ac yn asesu achosion yn unol â pholisïau/gweithdrefnau/ chwech o feini prawf ac yn penderfynu ar gategori 1-4. (Ceir manylion yn y Cylch Gorchwyl).

Mae aelodau panel yn dwyn unrhyw ymholiadau i sylw'r trefnydd o leiaf wythnos cyn y cyfarfod panel.

Mae'r Panel Craffu'n cwrdd ac yn adolygu achosion. Mae aelodau panel yn mynegi barn o dan reolaeth y Cadeirydd.

Mae Cadeirydd y Panel Craffu'n rheoli trafodaeth er mwyn dod i benderfyniad drwy fwyafrif ar gategori'r achos, sef 1 - 4.

Cofnodir nodiadau ac adborth ac anfonir hyn at swyddogion a staff fel sy'n briodol. (Bydd Pennaeth yr Adran Cyfiawnder Troseddol yn cydlynu materion sefydliadol strategol)

1. Defnydd priodol ac yn gyson â pholisïau/canllawiau
2. Defnydd priodol gydag amheuon gan aelodau panel
3. Defnydd amhriodol neu'n anghyson â pholisïau/canllawiau
4. Mae'r panel yn methu â dod i benderfyniad

Ystyriaethau'r aelod Panel wrth gategoreiddio achosion -

1. Os ar gael, safbwyntiau ac adborth gan y dioddefydd / troseddwr
2. Cydymffurfiaeth â gweithdrefnau a pholisïau'r Heddlu
3. Y rheswm dros y penderfyniad a'r canlyniad
4. Yr effaith bosibl ar y gymuned
5. Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd
6. Dewisiadau amgen posibl a allai fod wedi bod ar gael

| |
|---|
| **Datrysiadau Cymunedol** – Os yn drosedd cwblhewch **Adroddiad Trosedd** a chofnodwch 'Datrysiad Cymunedol – Canfuwyd' **Nid yn Drosedd** sicrhewch bod manylion llawn ar y cofnod STORM ac mae'r canlyniad yw Datrysiad Cymunedol. |

## Atodiad C

## Crynodeb o Ganllawiau ar gyfer cysylltiad ynadon mewn craffu ar ddogfen datrysiadau y tu allan i'r llys

**Cyfrifoldebau ynadon cysylltiedig**

1. Mae cysylltiad ynadon mewn craffu ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys yn deillio o'u safle fel dalwyr swydd farnwrol, ac o'r herwydd, rhaid iddynt gynnal a dangos annibyniaeth farnwrol a chofio bod amhleidioldeb yn hollbwysig ar gyfer rhyddhau swydd farnwrol yn briodol. Er enghraifft, ni ystyrir y byddai ynadon unigol yn ymgysylltu'n uniongyrchol â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu mewn perthynas â pholisïau neu flaenoriaethau plismona lleol o dan y trefniadau hyn. Dylai unrhyw adborth i heddluoedd neu Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu fod trwy drefniadau'r panel craffu lleol.
2. Dylai'r holl faterion a ystyrir o fewn y trefniadau craffu aros yn gyfrinachol, ar wahân i'r materion hynny a allai gael eu cyhoeddi mewn ffyrdd priodol fel y gellir eu diffinio gan gylch gorchwyl unigol y trefniadau craffu lleol.
3. Dylid mynegi unrhyw bryderon am y trefniadau drwy lwybrau mewnol yr heddlu gyda chysylltiad priodol y Cadeirydd Mainc a'r Clerc Ynadon perthnasol pan fo'n briodol.
4. Ar yr achlysur prin lle mae amgylchiadau y mae ynad wedi ystyried fel rhan o'r trefniadau craffu yn dod o'u blaen mewn llys ynadon (o bosibl am fethu â chydymffurfio â'r gwarediad y tu allan i'r llys), dylent eu hesgusodi eu hunain o'r materion hynny. Nid yw materion gwahanol sy'n ymwneud â'r un diffynnydd yn creu rhwystr tebyg.
5. Cyflwynir crynodeb o'r gwaith gan drefniadau craffu lleol i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Fainc berthnasol/Meinciau perthnasol bob blwyddyn.

**Cwmpas a natur trefniadau craffu sy'n cynnwys ynadon**

6. Dylai pob trafodaeth ynghylch datrysiadau y tu allan i'r llys fod yn wrtholygol.
7. Mae ynadon sy'n gysylltiedig â threfniadau craffu yno i gael dealltwriaeth o'r penderfyniadau a wnaed a thrwy drafodaeth i hysbysu polisi'r Heddlu mewn perthynas â datrysiadau y tu allan i'r llys yn y dyfodol.
8. Ni fydd modd i Ynadon sy'n gysylltiedig â chraffu newid datrysiadau sydd eisoes wedi'u gwneud.

Atodiad Ch

# Heddlu Dyfed-Powys

## YMRWYMIAD CYFRINACHEDD

Drwy gytuno i fod yn aelodau, mae pob aelod o'r Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys hefyd yn cytuno i'r gofyniad Cyfrinachedd hwn.

Diben y panel yw asesu, rheoli ansawdd, a chraffu'n annibynnol ar y defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys gan Heddlu Dyfed-Powys.

Rwy'n deall bod fy nghyfraniad i o ran cyflawni'r Diben yn golygu y bydd gennyf fynediad at ddata Heddlu Dyfed-Powys, a bydd data o'r fath yn cynnwys:

a) prosesu gwybodaeth sy'n cael ei chadw ar gyfrifiadur neu ei harddangos drwy ddull electronig arall,
neu
b) prosesu gwybodaeth sy'n cael ei chadw ar ffurf ysgrifenedig, argraffedig neu ffotograffig.

Rwy'n addo; -

1. Na fyddaf yn cyfathrebu nac yn trafod unrhyw fanylion personol o'r data gydag unrhyw berson arall ar wahân i'r aelodau hynny sy'n rhan o'r panel. Cytunir y gellir rhannu canfyddiadau'r panel gydag aelodau o'r sefydliad y mae'r aelod panel yn perthyn iddo. I'r perwyl hwn, cwblheir adroddiad o ganfyddiadau ar ôl pob cyfarfod.

2. Ni fyddaf yn cadw, tynnu, copïo nac yn defnyddio data Heddlu Dyfed-Powys rwyf wedi cael mynediad ato mewn unrhyw ffordd arall wrth gyflawni fy nyletswyddau ar gyfer unrhyw ddiben arall.

3. Byddaf yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau diogelwch system a chorfforol rwyf wedi cael gwybod amdanynt fel aelod o'r panel.

4. Ni fyddaf yn rhannu nac yn cyhoeddi unrhyw ddata a gynhyrchwyd gan ddefnyddio data Heddlu Dyfed-Powys heb ganiatâd y Rheolydd Data ymlaen llaw, nac yn gwneud data o'r fath yn gyhoeddus.

Rwy'n deall bod data Heddlu Dyfed-Powys yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 2018 a thrwy weithredu y tu allan i gwmpas y Cytundeb hwn yn fwriadol neu'n ddi-hid y gallaf ennyn rhwymedigaethau sifil a/neu droseddol.

Rwy'n addo ceisio cyngor ac arweiniad yr unigolyn penodol sy'n gweithredu ar ran y Rheolydd Data os bydd gennyf unrhyw amheuon neu bryderon am fy nghyfrifoldebau neu ddefnydd awdurdodedig o'r data a/neu'r data cyfanredol a ddiffinnir yn y Cytundeb.

**Drwy dderbyn y Cylch Gorchwyl a bod yn rhan o'r Panel Craffu, rwy'n cadarnhau fy mod i wedi darllen, deall a derbyn yr uchod.**

Llofnod: …………………………………. Dyddiad :…………………………

Eich enw mewn print bras: ………………………………

## ATODIAD D

| Dewis o ran datrysiad | Math o drosedd | Safon dystiolaethol | A oes angen cyfaddefiad o gyfrifoldeb neu gyfaddefiad o euogrwydd? | A oes angen cytundeb gydag asiantaethau? | A oes angen caniatâd clir y troseddwr? | A oes angen barn y dioddefydd ? | A oes cyfiawnder adferol/ iawndal ar gael? | A yw'n ffurfio rhan o gofnod troseddol? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datrysiad Cymunedol Oedolion** | Troseddau/ digwyddiadau lefel isel | Amheuaeth rhesymol fod trosedd wedi digwydd; bod yr unigolyn dan amheuaeth yn gyfrifol, a chyfaddefiad o'u gweithredoedd. | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Nac ydyw, fodd bynnag gellir ei ddatgelu ar wiriad Swyddfa Cofnodion Troseddol Uwch. |
| **Rhybudd Amodol Oedolion** | Gweler Matrics Difrifoldeb Oedolion | Rhaid bodloni Prawf Cod Llawn HDP | Oes | Dim ond os yw Cam-drin Domestig yn cael ei ystyried. Rhaid ei awdurdodi gan GEG. | Oes | Oes | Oes, gelli ei ystyried os yn bodloni meini prawf penodol. | Ydyw |
| **Rhybudd Oedolion** | Troseddau Domestig a Chasineb yn unig. | Rhaid bodloni Prawf Cod Llawn HDP | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Nac oes | Ydyw |
| **Datrysiad Adferol Ieuenctid** | Trosedd lefel isel a chamymddwyn cymunedol | Amheuaeth rhesymol fod trosedd wedi digwydd; bod yr unigolyn dan amheuaeth yn gyfrifol, a chyfaddefiad o'u gweithredoedd. | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Nac ydyw, fodd bynnag gellir ei ddatgelu ar wiriad Swyddfa Cofnodion Troseddol Uwch. |
| **Datrysiad Cymunedol Ieuenctid** | Gweler Matrics Difrifoldeb Plant v.2.2 | Amheuaeth rhesymol fod trosedd wedi digwydd; bod yr unigolyn dan amheuaeth yn gyfrifol, a chyfaddefiad o'u gweithredoedd. | Oes | Oes – cyfeirier at y Timau Troseddau Ieuenctid. | Oes | | Oes | Nac ydyw, fodd bynnag gellir ei ddatgelu ar wiriad Swyddfa Cofnodion Troseddol Uwch. |
| **Rhybudd Amodol Ieuenctid** | Gweler Matrics Difrifoldeb Plant v.2.2 | Rhaid bodloni Prawf Cod Llawn HDP | Oes | Oes – cyfeirier at y TTI. O ran Trosedd Domestig/ Casineb – cyfeirier at GEG. | Oes | | Oes | Sylfaenol: Datgelir am fwyafswm o 3 mis Safonol ac Estynedig: Heb ei ddatgelu'n awtomatig. ** |
| **Rhybudd Ieuenctid** | Gweler Matrics Difrifoldeb Plant v.2.2 | Rhaid bodloni Prawf Cod Llawn HDP | Oes | Oes – cyfeirier at y Timau Troseddau Ieuenctid. | Oes | | Oes | Heb ei ddatgelu'n awtomatig |

Matrics Difrifoldeb Oedolion
Matrics Difrifoldeb Ieuenctid